# Aliwns o'r gofod

Mae cyfres o erthyglau mewn papurau Saesneg dw i wedi eu darllen yn ddiweddar wedi gwneud i fi ddechrau meddwl. Beth fyddai'n digwydd petai aliwns yn glanio ar y ddaear ac yn dweud rhywbeth fel "Ga i siarad â'ch pennaeth?" Pwy ddylen ni ei alw? Pwy fyddai'r un i siarad ar ein rhan? Pwy fyddai'n ddigon doeth i gyfathrebu â'r bodau dieithr?

Yn ôl rhai o'r erthyglau dw i newydd eu darllen, mae un person yn sefyll ben ac ysgwyddau uwchlaw unrhyw un arall, sef Mazlan Othman - astroffisegydd (gwyddonydd sy'n astudio'r planedau a'r sêr) o Falaysia. Hi yw pennaeth yr adran yn y Cenhedloedd Unedig sy'n delio â materion y gofod (*the Office for Outer Space Affairs* neu *Unoosa*). Ei phrif waith yw sicrhau bod gwledydd gwahanol yn cydweithio ar faterion sy'n ymwneud â'r gofod.

Mae gwyddonwyr wedi darganfod bod cannoedd o blanedau o gwmpas y sêr, ac felly mae hi - a nifer o wyddonwyr eraill - yn credu y gallai bodau fyw ar rai o'r planedau hyn. Mae hi'n gobeithio, felly, y bydd rhyw fath o gyfathrebu'n digwydd rhyngddyn nhw â phobl ar y ddaear ryw ddiwrnod.

Ond tybed pa fath o 'gyfathrebu' fyddai hyn? Mae'r rhan fwyaf o bobl wedi gweld ffilmiau fel ET, lle mae bod o blaned arall yn cyrraedd y ddaear ac mae'n llwyddo i gyfathrebu'n llwyddiannus. Mae llawer ohonon ni wedi gweld ffilmiau lle mae llongau gofod o blanedau eraill yn ymosod ar y ddaear hefyd. Does dim llawer o gyfathrebu'n digwydd yn y rheina!

Mae'n fwy tebygol mai signalau radio a golau o blaned bell fyddai'r cysylltiad cyntaf, a phetai unrhyw fodau yn llwyddo i ddod yma, mae'n fwy tebygol mai microbau fydden nhw.

Mae un gwyddonydd enwog, yr Athro Stephen Hawking, yn dweud ei bod hi'n bosib iawn fod yna fywyd ar blanedau eraill - yn enwedig os ystyriwch chi faint o blanedau sydd yn y bydysawd. Ond mae'n rhybuddio y gallai unrhyw long ofod sy'n glanio yma achosi problemau i ni. Byddai wedi teithio'n bell ac felly byddai wedi defnyddio'r holl adnoddau oedd arni. Byddai angen adnoddau o'r ddaear felly! Mae'n cymharu'r digwyddiad posib â glaniad Christopher Columbus yn America ac effaith hynny ar y bobl oedd eisoes yn byw yno.

O ystyried hyn, dw i'n meddwl y byddai'n syniad ardderchog petai rhywun yn meddwl am eiriau caredig, croesawgar i gyfarch unrhyw fod arall allai lanio yma! Efallai eich bod chi'n cofio i ddwy long ofod gael eu lansio o'r ddaear yn 1997, sef Voyager 1 a Voyager 2, gyda'r bwriad o deithio i blaned Sadwrn ac Iau. Cyn gadael, recordiwyd neges ar eu cyfer, sef "Rydym yn camu allan o'n system solar i'r bydysawd gan chwilio am heddwch a chyfeillgarwch". Tybed fyddai addasu'r neges yma ar gyfer bodau allai ddod yma i'n gweld ni yn syniad da? Efallai y byddai rhywbeth fel, "Rydym yn eich croesawu i'n byd mewn heddwch a chyfeillgarwch" yn addas. Ond pwy fyddai'r person gorau i roi'r neges yma, tybed?